# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2224 |
| Committee | Pwllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Date | 15/12/2020 |
| Attendees | Cynghorwyr Haydn Trollope (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John C. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr David Wilkshire (Aelod Pwyllgor)<br>Mr. Tim Baxter (Co-Optee)<br>Mr. Alun Williams (Co-Optee)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Gavin Metheringham (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Michelle Jones (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Anne-Louise Clark (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Damien McCann (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Cynghorwyr Joanne Collins (Notify) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4092 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |

| | |
|---|---|
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| Item ID | 4093 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier ac L. Parsons.<br><br>**<u>Aelod Cyfetholedig</u>**<br>T. Baxter |

| Item ID | 4094 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Datganodd y Cadeirydd a'r Cynghorwyr J.C. Morgan a T. Smith fuddiant yn Eitem 5 – Cynnig ymgynghori ar addysg cyfrwng Cymraeg |

| Item ID | 4095 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2020, yn cynnwys:-<br><br>**<u>Crynodeb o ddeilliannau arolwg Sefydliadau Addysgol – tymor yr hydref 2019 a thymor y gwanwyn 2020</u>**<br><br>Yng nghyswllt yr eitem uchod, gofynnodd Aelod am i'w gwestiwn am Ysgol Sylfaen Brynmawr gael ei gynnwys yn y cofnodion i ddangos her craffu. Mae'r adroddiad yn dweud nad yw disgyblion o bob gallu mewn mwyafrif o wersi yn gyffredinol yn gwneud digon o gynnydd. Nid ydynt yn adalw na defnyddio dysgu blaenorol yn ddigon na nac yn datblygu eu sgiliau'n ddigonol, yn arbennig mewn llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn ddiffyg pwysig.<br><br>Roedd yr Aelod eisiau sicrwydd bod Ysgol Sylfaen Brynmawr yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol gydag ysgolion eraill a sefydliadau eraill.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion.<br><br>**<u>DIWEDDARIAD LLAFAR – PANDEMIG COVID-19</u>**<br><br>Ar gais y Cadeirydd, rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ddiweddariad llafar ar bandemig COVID-19.<br><br>Roedd Blaenau Gwent, ar draws yr holl stad ysgolion, wedi symud i ddysgu o bell o 10 Rhagfyr. Ni chymerwyd y penderfyniad yn ysgafn a'r adborth gan |

benaethiaid ysgol oedd fod dysgu o bell yn gweithio'n dda, gyda dysgwyr yn parhau i gadw eu diddordeb.

Cyhoeddwyd cyfarwyddeb gan Lywodraeth Cymru am ddwy agwedd o ddarpariaeth. Teimlai yng nghyswllt yr agwedd gyntaf, darpariaeth i ddysgwyr bregus, bod yr Awdurdod mewn sefyllfa gadarn yng nghyswllt darpariaeth dysgwyr bregus gan fod darpariaeth gref ar waith i gefnogi dysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal a'r dysgwyr hynny sydd ar y gofrestr amddiffyn plant y gall eu teuluoedd fod angen cefnogaeth.

Ail agwedd y gyfarwyddeb oedd darpariaeth gweithwyr allweddol gofal plant cyn gwyliau'r Nadolig. Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o benaethiaid ysgol ac roeddent wedi cytuno y dylid anfon llythyr at rieni i'w hysbysu am unrhyw ofynion gofal plant y gallai fod eu hangen ar gyfer dydd Iau a dydd Gwener yr wythnos honno. Gwnaed yn glir os mai dim ond os oedd popeth arall wedi methu y dylid defnyddio hyn oherwydd bod dysgwyr yn fwy diogel o fewn eu cartrefi. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth Aelodau fod yr Awdurdod yn ymateb i'r gyfarwyddeb.

Aeth y swyddog ymlaen drwy ddweud fod y penaethiaid ysgol a'r Cyngor yn gweithio tuag at ddechrau'r tymor newydd ar 4 Ionawr ac yn rhagweld mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt disgwyliadau ar gyfer darpariaeth tymor y gwanwyn ar gyfer ysgolion.

Holodd Aelod am gyhoeddiad Llywodraeth Cymru am brofi pob disgybl mewn ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg na ddisgwylid y byddai hyn yn ei le o ddechrau'r tymor, maent yn disgwyl manylion pellach gan Lywodraeth Cymru am ddarpariaeth profion mewn ysgolion.

Dywedodd Aelod eu bod, fel grŵp wedi ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Addysg ym mis Tachwedd i ofyn am newid i ddysgu cyfunol. Mynegodd ei ddiolch i'r Cyfarwyddwr Addysg a'i staff ar y penderfyniad i newid i ddysgu cyfunol. Deallai iddo fod yn benderfyniad anodd ond bu cyfraddau heintio'n codi'n gyflym ym Mlaenau Gwent gyda rhai rhieni wedi tynnu eu plant o'r ysgol oedd wedi arwain at i niferoedd ysgol ddisgyn i hanner yr hyn y dylent fod wedi bod. Teimlai y gallai athrawon a staff fod yn dawel eu meddwl, heb ymgyfraniad Olrhain a Chanfod, dros gyfnod y Nadolig. Fel Cynghorydd, llywodraethwr ysgol ac fel tad-cu, diolchodd i'r Cyfarwyddwr am wneud y penderfyniad anodd.

Fe wnaeth aelodau'r Pwyllgor Craffu hefyd fynegi ei ddiolch i'r Cyfarwyddwr a'i staff am eu gwaith caled a'u dycnwch dros y flwyddyn heriol ac anodd ddiwethaf.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Addysg i'r Aelodau am eu sylwadau ac ailddywedodd na chymerwyd y penderfyniad yn ysgafn, ond bod amgylchiadau lleol yn golygu fod nifer o ysgolion mewn sefyllfa fregus iawn. Ar ôl ymgynghori gyda phenaethiaid ysgol, teimlai y bu'n ymateb cymesur yn seiliedig ar yr heriau a wynebwyd bryd hynny.

| | |
|---|---|
| | Cododd Aelod bryderon am asesiadau risg ar gyfer disgyblion gydag anghenion cymhleth yr oedd eu rhieni yn weithwyr allweddol ac angen i'w plant fynychu'r hybiau ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg y byddent yn cydlynu gyda chydweithwyr Iechyd a Diogelwch a phenaethiaid ysgol. Ategodd y disgwylir gwybodaeth gan rieni a gofalwyr am eu ceisiadau ar gyfer darpariaeth gweithwyr allweddol. Cynhelir asesiadau risg a rhoddir ystyriaeth i anghenion disgyblion unigol gyda chefnogaeth gan gydweithwyr Iechyd a Diogelwch.<br><br>Cododd Aelod bryderon am y negeseuon cymysg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru am gyfnod clo ym mis Ionawr. Nododd fod Swyddogion yn gweithio at ddiwrnod dechrau o 4 Ionawr, fodd bynnag mae'r Gyfarwyddiaeth hefyd yn ystyried ymestyn dysgu cyfunol pe cyhoeddir cyfnod clo ym mis Ionawr ynghyd â phrofi disgyblion mewn ysgolion a'r mesurau diogelu sydd eu hangen. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg eu bod yn disgwyl canllawiau diffiniol pellach gan Lywodraeth Cymru am ddisgwyliadau ar gyfer darpariaeth o 4 Ionawr ymlaen. Fodd bynnag, mae Blaenau Gwent wedi paratoi am ddysgu cyfunol ac aeth gwaith rhagddo i sicrhau fod gan ddysgwyr y gallu technoleg gwybodaeth i fedru dysgu o osodiadau cartref, yn neilltuol ddysgwyr gydag anfantais. Teimlai y gallai dysgu cyfunol, am o leiaf dymor y gwanwyn ac efallai tu hwnt i hynny, ddod y norm newydd ac ategodd fod Blaenau Gwent mewn safle da i barhau gyda dysgu cyfunol a dysgu o bell gan symud ymlaen i dymor y Gwanwyn. |

| Item ID | 4119 |
|---|---|
| Item Title | Cynnig Ymgynghori ar Addysg Cyfrwng Cymraeg |
| Summary | Datganodd y Cadeirydd a'r Cynghorwyr J.C. Morgan a T. Smith fuddiant yn yr eitem ddilynol ac ar ôl cael cyngor gan y Swyddog Monitro, fe wnaethant aros yn y cyfarfod. Felly cymerodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd J. Holt, y gadair.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a ofynnwyd i ofyn am farn y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu yng nghyswllt y cynnig i ymgynghori ar greu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd gyda 210 lle yn ardal Tredegar/Cwm Sirhywi.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Addysg am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo. Byddai'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu yn ymgyngoreion statudol ar y cynnig.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod parthed y £6.2m a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg y gwnaed y dyraniad ar sail 'mewn egwyddor' ac y cafodd ei glustnodi ar gyfer y cynllun hwn. Bu dialog ddiweddar gyda Llywodraeth Cymru yn dweud fod y dyraniad yn dal i fod ar gael i'w ddefnyddio o fewn Blaenau Gwent, yn amodol ar yr ymgynghoriad. Roedd gan yr Aelod bryderon, pe byddai'r ymgynghoriad yn mynd yn erbyn y cynnig, y byddai Llywodraeth Cymru yn gofyn am y £6.2m yn ôl. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y tîm Trawsnewid Addysg wedi gwneud |

llawer o waith i gael mynediad i'r cyllid cyfalaf, a'i bod yn amlwg yn flaenoriaeth o fewn y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i gyflawni goblygiadau statudol. Mae bellach angen gofyn yn ffurfiol am sylwadau rhanddeiliaid fel rhan o'r broes ymgynghori cyn symud ymlaen yn ffurfiol â'r cynnig.

Holodd Aelod os byddai'r ysgol yn cael ei adeiladu mewn cyfnodau gan mai dim ond 48 lle a ddefnyddid i ddechrau gan arwain at 210 lle dros y chwe mlynedd nesaf. Dywedodd y Cyfarwyddwr, yn amodol ar gymeradwyo'r cynnig, bod Gwasanaethau Technegol wedi dweud y byddai'n well o safbwynt cost cyfalaf i gael un contract ar gyfer adeiladu'r ysgol ac wedyn agweddau agored o'r ysgol wrth i'r capasiti gynyddu.

Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg bod cyfleoedd ar gyfer cyflwyno camau yr edrychir arnynt, ac yn amodol ar ganlyniad y prosesau statudol, ystyrid dadansoddiad manwl o amgylch y costau a'r buddion yn gysylltiedig gyda chyflwyno mewn cyfnodau a datblygu'r cynnig.

Yng nghyswllt y gwaith ymchwilio safle a wnaed eisoes, holodd Aelod am y gyllideb ar gyfer y gweithiau hynny. Esboniodd y Cyfarwyddwr y cafodd y costau hynny eu codi yn erbyn y rhaglen Cyfalaf Addysg a'u bod yn gostau isel iawn h.y. ymchwiliadau mwyngloddio ac astudiaethau bwrdd gwaith y byddid yn eu hail-godi i'r gost gyfalaf yn gysylltiedig gyda'r cynllun.

Dywedodd Aelod ei fod yn cefnogi'r ymgynghoriad o hyn ymlaen a dim ond ar ôl rhoi ffeithiau gerbron Aelodau y gellid gwneud penderfyniad am y cynnig.

Dywedodd Aelod arall ei fod yn cefnogi'r ymgynghoriad a gobeithiai y'i cynhelid ar draws Blaenau Gwent gyda phob ysgol a staff a rhieni'n cymryd rhan. Dywedodd mai un peth yw adnoddau cyfalaf i adeiladu'r sector, ond roedd ganddo bryderon am gostau refeniw a'r effaith ar y Gyllideb Ysgolion Unigol.

Roedd Aelod arall hefyd yn cefnogi'r ymgynghoriad i gasglu barn y gymuned ehangach gan y byddai'r safle arfaethedig yn effeithio mwy ar rai cymunedau ag eraill. Gwnaeth y pwynt y bu adroddiad am yr ymgynghoriad eisoes yn South Wales Argus oedd wedi achosi rhai pryderon.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai'r ymgynghoriad ar draws y fwrdeistref sirol gyda chyfle i fwydo sylwadau cymunedau lleol i'r ymgynghoriad a byddai hefyd yn cynnwys barn awdurdodau cyfagos gan fod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar sail ranbarthol. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelod na fyddai'r ymgynghoriad ffurfiol, os caiff ei gymeradwyo, yn dechrau tan 17 Rhagfyr 2020. Byddai'r erthygl yn y wasg wedi bod yng nghyswllt yr adroddiad oedd ar yr agenda ar gyfer heddiw.

Cyfeiriodd Aelod at yr ymgynghoriad a holodd os y cynhwysid llywodraethwyr ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod ymgynghoriad gyda llywodraethwyr ysgol yn rhan allweddol o unrhyw broses ymgynghori

| | |
|---|---|
| | statudol yn gysylltiedig gyda threfniadaeth ysgolion ac y gellid cynnal cyfarfodydd ymgynghori rhithiol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cadarnhaodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg, fel y manylir yn y ddogfen ymgynghori, y gellir trefnu unrhyw geisiadau ar gyfer sesiynau ymgysylltu rhithiol.<br><br>Yng nghyswllt y cyfnod ymgynghori o 20 diwrnod, holodd Aelod os byddai hyn yn cael ei ymestyn pe bai ysgolion mewn cyfnod clo ym mis Ionawr. Dywedodd y Cyfarwyddwr y rhagwelir y byddai Llywodraeth Cymru yn glir y byddai ysgolion yn agor yn swyddogol ym mis Ionawr, hyd yn oed os oeddent yn gweithio o amgylch dysgu o bell a dysgu cyfunol. Byddai ymgynghoriad yn wahanol y tro hwn oherwydd sefyllfa COVID-19, gellir cynnull cyfarfodydd wyneb i wyneb os yw’n ddiogel gwneud hynny. Fodd bynnag rhagwelid y byddai Ionawr yn amser anodd yn nhermau achosion COVID-19 ac y cynhelid y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn rhithiol.<br><br>Ar ôl datgan buddiant yn yr eitem fel llywodraethwr ysgol, dywedodd yr Aelod os oes ymgynghoriad gyda llywodraethwyr ysgol yna y dylai fod ymgynghoriad gyda staff ysgolion a phenaethiaid ysgol o fewn y Fwrdeistref ac ardal Tredegar. Holodd lle byddai Aelodau yn sefyll yn yr ymgynghoriad yn y dyfodol gan fod yn Aelod Craffu ar y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a hefyd yn llywodraethwr ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr, o ymgynghoriadau blaenorol, bod Aelodau a fu ar y Pwyllgorau Craffu ac ar gyrff llywodraethu wedi cymryd rhan a chynnig eu safbwyntiau a’u barn am y cynnig. Roedd Aelodau wedi gwirio hyn gyda’r Swyddog Monitro cyn y cyfarfod a dywedodd na fyddai hyn yn eithrio Aelodau rhag cynnig sylwadau fel Llywodraethwyr ac fel cynrychiolwyr ar y Pwyllgor Craffu yn nhermau’r cynnig cyffredinol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef derbyn yr adroddiad, y ddogfen gysylltiedig a’r llwybr gweithredu. |

| Item ID | 4118 |
|---|---|
| Item Title | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2019/20 Blaenau Gwent ac Adroddiad Cynnydd ar y Cynnig Grant Cyfrwng Cymraeg |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar gynnydd yng nghyswllt Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) Blaenau Gwent 2017-2020 a’r cynnig grant cyfrwng Cymraeg cysylltiedig.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at ragamcanion twf a holodd os oes cynnydd yn y galw am leoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg ei bod yn anodd rhagamcan twf, rhoddir ystyriaeth i’r dalgylchoedd a thafluniadau yng nghyswllt tueddiadau a data genedigaethau, roedd hefyd |

| | |
|---|---|
| | drosglwyddiadau o fewn blwyddyn. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn dymuno gweithio'n fwy agos gyda'r sector Blynyddoedd Cynnar am dwf a throsiant. Nododd hefyd fod hygyrchedd e.e. cludiant yn dal yn fater allweddol ym Mlaenau Gwent.<br><br>Holodd Aelod am y goblygiadau cyllideb. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg nad oedd unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, fodd bynnag gallai'r cynnig ar gyfer datblygu ysgol gynradd Gymraeg newydd gyda 210 lle, sy'n destun proses statudol a chymeradwyaeth wleidyddol, olygu y gall fod rhai goblygiadau refeniw yn gysylltiedig gyda'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y mae'r cynnig yn rhan ohono.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn yr adroddiad a'r llwybr gweithredu cysylltiedig. |

| Item ID | 4120 |
|---|---|
| Item Title | Rhaglen Gwella Ysgolion 2020 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i roi trosolwg i Aelodau o'r ysgolion hynny sydd wedi cyflwyno fel achos pryder dros y 3 blynedd ddiwethaf, eu cynnydd a'r gwaith a gyflawnwyd neu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i barhau i gefnogi gwella.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Addysg am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo. Dywedodd y byddai Aelodau yn gwybod y bu newidiadau a llacio trefniadau perfformio yn gysylltiedig â COVID-19, ond y cyflwynir yr adroddiad fel bod Aelodau yn cael cyfle i graffu ar ddatblygiadau.<br><br>Mynegodd Aelod bryderon yr ymddengys nad yw dwy ysgol uwchradd yn dangos unrhyw welliant mewn perfformiad flwyddyn ar flwyddyn a heb gategoreiddio roedd Aelodau yn dibynnu ar adroddiadau chwarterol i gael awgrym o berfformiad cyfredol. Cododd bryderon pellach am y ddwy ysgol pob oed ym Mlaenau Gwent sydd â diffyg ariannol a holodd beth oedd y diffyg ar gyfer yr ysgol honno a pha gynlluniau sydd yn eu lle i ostwng y diffyg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg y bu Cymuned Ddysgu Abertyleri yn achos pryder ers cyfnod, fodd bynnag roedd yn rhesymol optimistig ar gyfer dyfodol yr ysgol. Teimlai y cafodd y trefniadau arweinyddiaeth, o safbwynt proffesiynol y corff llywodraethol, eu cryfhau dros y 12-18 mis nesaf a theimlai'n hyderus wrth symud ymlaen. Yng nghyswllt y sefyllfa ariannol ar draws y stad ysgolion, ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/2020 yn gyffredinol, roedd ysgolion ar draws Blaenau Gwent mewn sefyllfa ffafriol, fodd bynnag, mae diffyg mewn ysgolion pob oed. Mae'r rhagamcan diffyg ar gyfer Cymuned Ddysgu Abertyleri yn fwy na £1m ond mae'r union swm tua £600,000. Gosodwyd targed arbedion o £175,000 yn gysylltiedig â'u cynllun diffyg gostwng cyllideb. Roedd yr ysgol wedi dweud y gellid cyrraedd targed arbedion, sefydlwyd Grŵp Corfforaethol, dan arweiniad Rheolwr Gyfarwyddwr y Cyngor, i gadw golwg agos ar gynaliadwyedd ariannol a safonau addysgol Cymuned Ddysgu Abertyleri o hyn ymlaen. |

Rhoddodd sicrwydd i Aelodau fod cynlluniau yn eu lle i graffu'n agos ar yr ysgol o ran eu trefniadau cynllunio ariannol. Dywedodd wrth Aelodau y byddent yn edrych dros y ddwy flynedd nesaf i gynnal adolygiad o'r Gyllideb Ysgolion Unigol a'r fformiwla cyllid. Byddir yn symud ymlaen â'r adolygiad a rhoddir adroddiad maes o law i'r pwyllgor craffu fel y symudir ymlaen gyda rhai o'r cynigion.

Gofynnodd Aelod fod adroddiadau y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth ar gyllidebau ysgolion a all fod yn faes pryder.

CYTUNODD y Pwyllgor ar y llwybr gweithredu hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn Aelod am ddiffyg yn yr ysgolion pob oed, ac os oedd perfformiad ysgolion iau a chynradd yn yr ardal hefyd yn achos pryder, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod rhagamcanion diffyg ariannol cyn sefydlu Cymuned Ddysgu Abertyleri yn seiliedig ar yr ysgol gyfun flaenorol yn Abertyleri. Bu poblogaeth disgyblion yn gostwng sy'n cael effaith ar y sefyllfa refeniw gyffredinol a chynaliadwyedd yr ysgol gyfun. Mae gan Gymuned Ddysgu Abertyleri yn awr y nifer lawn o ddysgwyr ac mae hyn wedi cyfrannu at ostwng y diffyg ariannol a chynaliadwyedd Cymuned Ddysgu Abertyleri yn y dyfodol. Dywedodd wrth Aelodau fod Cymuned Ddysgu Abertyleri wedi mynd ag adroddiad drwy ei chorff llywodraethu am yr Adolygiad Arweinyddiaeth, a theimlai y byddai hyn yn rhoi strwythur cryf ac effeithlon i fynd â'r cyfnodau uwchradd ac chynradd ymlaen fel ei gilydd. Rhoddodd sicrwydd i Aelodau fod cynnydd yn cael ei fonitro a bod ganddo fwy o hyder fod yr ysgol yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyliadau.

Dywedodd y Prif Gynghorydd Her y cynhaliwyd adolygiad yn yr ysgol oedd yn cynnwys llyfrau disgyblion. Bu amrywiaethau ar draws pob un o'r campysau cynradd, roeddent i gyd ar wahanol bwyntiau pan unodd yr ysgol. Mae bellach gysondeb o ran safonau a chynnydd ar draws pob campws cynradd a theimlai y bu newid diwylliannol fel ysgol pob oed. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cydweithio i gryfhau ansawdd, safonau a darpariaeth er budd dysgwyr yn yr ysgol.

Dywedodd Aelod ei bod yn dda gweld fod ysgolion yn gwella ac yn gwneud eu gorau ar gyfer disgyblion a holodd am lefelau staffio. Atebodd y Cyfarwyddwr Addysg fod Cam 1 y cynigion ailstrwythuro yn ymwneud â sicrhau'r arweinyddiaeth a rheolaeth uwch gywir o fewn y Gymuned Ddysgu ac y byddai Cam 2 yn edrych ar addysgu a chymhorthwyr dysgu.

Holodd y Cadeirydd am gynnydd ar waith ailfodelu Ysgol Sylfaen Brynmawr ac os oedd hyn yn effeithio ar addysgu a dysgu yn yr ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod ailfodelu ysgolion uwchradd yn rhan allweddol o flaenoriaethau Band B. Yng nghyswllt yr amserlenni tebygol ar gyfer buddsoddiad yn yr ysgol, dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg y buont yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu achos busnes a gyflwynir yn gynnar y flwyddyn nesaf, yn dilyn briff prosiect a dylunio manwl gyda golwg ar ddechrau gwaith ar y safle rywbryd yn 2023. Mae hwn yn brosiect sylweddol ac yn debygol o gwmpasu rhaglenni Band A a Band B gyda'r nod o wella

| | |
|---|---|
| | addysgu a dysgu a deilliannau cysylltiedig ar gyfer disgyblion drwy sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn hwyluso'r gwelliannau hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod y buddsoddiad posibl o Raglen Band B a'r grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg yn rhoi buddsoddiad o £25m yn y stad ysgolion, fodd bynnag mae angen buddsoddiad pellach gan ei bod yn debygol y byddai ailfodelu ysgolion uwchradd yn mynd i raglen Band C ar ôl 2025 fel rhaglen barhaus ar gyfer ysgolion uwchradd.<br><br>Yng nghyswllt ysgolion mewn diffyg, holodd y Cadeirydd sut y caiff y diffygion eu cyllido, esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg yr ystyrir y Gyllideb Ysgolion Unigol fel un adnodd gyffredinol, cyflwynir adroddiadau i'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol ar sail flynyddol sy'n dangos diffygion a gwargedion ar draws yr holl stad ysgolion. Ar hyn o bryd, mae'r stad ysgolion mewn sefyllfa gwarged o £1m. Mae ysgolion yn ymdopi o fewn y Gyllideb Ysgolion Unigol cyffredinol heb greu pwysau ar gyllidebau corfforaethol eraill.<br><br>Dywedodd Aelod y dylid cyflwyno sefyllfa diffygion cyllidebau ysgolion i'r Pwyllgor Craffu er mwyn rhoi gwybodaeth lawn i Aelodau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg y gellid paratoi adroddiad i roi trosolwg i Aelodau o'r perfformiad ariannol ar draws y stad ysgolion heb ddynodi ysgolion unigol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef paratoi adroddiad ar gyllidebau ysgolion a all fod yn feysydd consyrn er mwyn cyfrannu at asesiad parhaus o effeithlonrwydd a bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu yn y dyfodol. |

| Item ID | 4121 |
|---|---|
| Item Title | Rheoli Lleoedd Disgyblion a'r Stad Ysgolion 2019/2020 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Trawsnewid Addysg a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar reoli lleoedd disgyblion a'r stad ysgolion ar hyd sesiwn academaidd 2019/20.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Holodd Aelod am y lleoedd dros ben yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg a'r gostyngiad mewn ffigurau ar gyfer addysg Gymraeg mewn ysgolion cynradd a gofynnodd os caiff yr wybodaeth hon ei cynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Dywedodd nad oedd nifer ddigonol o ystafelloedd dosbarth yn Ysgol Pen-y-cwm ar gyfer y disgyblion oedd yno eto roedd lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd arall. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod y ddogfen ymgynghori yn dangos cyd-destun nifer a thueddiadau disgyblion Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Hi oedd yr unig ysgol gynradd Gymraeg bryd hynny ac mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am hyrwyddo galw a thwf. I ddechrau bu materion yn ymwneud â safonau a amlygwyd yn arolwg Estyn ond mae'r ysgol wedi gwella'n sylweddol ac mae nifer y disgyblion wedi |

cynyddu ac yn tyfu flwyddyn ar flwyddyn yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda'r sector Blynyddoedd Cynnar i wella darpariaeth opsiynau gofal plant cyfrwng Cymraeg gyda golwg ar ddenu galw pellach yn arbennig yn y grŵp oedran meithrin a dosbarth derbyn. Bu'n daith wella sylweddol ac mae'r Awdurdod yn ystyried sut i reoli'r lleoedd gwag o fewn Ysgol Gymraeg Bro Helyg i sicrhau digonolrwydd yn y tymor canol i'r hirdymor yn unol gyda'r potensial am alw cynyddol.

Yng nghyswllt Ebwy Fawr, cynhaliwyd adolygiad o gapasiti ysgol Pen-y-Cwm ond gan fod nifer disgyblion wedi cynyddu'n sylweddol a bod yr ysgol wedi gorfod ailweithio ei gweithgareddau, mae angen cynnal adolygiad pellach graddfa lawn o fewn yr ysgol i edrych ar ailgyflwyno'r amgylchedd dysgu a'r capasiti ychwanegol y gallant ei angen yn unol â rhagamcanion posibl. Datblygwyd dogfen ymgynghori gyda drafft ddyluniad a rhestr ystafelloedd i drin anghenion ysgol Pen-y-Cwm yn y tymor byr i'r tymor canol, byddai'r datblygiadau hirdymor yn cynnwys defnydd posibl agweddau o safle cynradd Ebwy Fawr. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ac mae'r tîm yn edrych ar gyflwyno cynigion i gynyddu capasiti ac felly y gofod o fewn ysgol Pen-Cwm yn gynnar yn 2021.

Dywedodd Aelod y bu nifer o alw nag o leoedd ar gael mewn nifer o ysgolion flwyddyn ar flwyddyn, roedd rhai oherwydd mewnlif sylweddol o ddisgyblion o ddatblygiadau preswyl newydd yn y dalgylch a holodd os yw hyn yn cael ei drin ac a roddir ystyriaeth i gynnydd sylweddol mewn rhagamcanion disgyblion wrth ddylunio ysgolion newydd. Esboniodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg sut y cynhelir y rhagamcanion, mae fformiwla wedi sefydlu ac mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r Adran Cynllunio i ffactora datblygiadau tai ac yn y blaen.

Y setiau rhagamcanion oedd:

- Datblygiadau heb eu cymeradwyo eto (yn cynnwys edrych ar gyfraniadau datblygydd Adran 106 i ddarparu ar gyfer cynyddu capasiti)
- Datblygiadau a gymeradwywyd (yn cynnwys ceisio sicrhau cyfraniadau Adran 106 gan ddatblygwyr i gefnogi cynyddu capasiti)
- Data genedigaethau a thueddiadau.

Yng nghyswllt dyluniad ac ystafelloedd Ysgol Gynradd Glyncoed, roedd y tîm wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Cynllunio ac ar hyn o bryd mae capasiti i ddarparu ar gyfer galw cynyddol posibl yn y dyfodol. Roedd hefyd gynllunio strategol yn cael ei adolygu'n rheolaidd i asesu unrhyw effaith bosibl i sicrhau y gellir darparu ar gyfer nifer disgyblion yn y dyfodol.

Dywedodd yr Aelod y defnyddiwyd Adran 106 yn fanteisiol iawn yn ysgol Georgetown ar gyfer offer chwarae newydd yn iard yr ysgol a hefyd yn y maes chwarae lleol a gobeithiai y byddai defnydd Adran 106 yn parhau.

Hysbysodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg yr Aelodau eu bod yn edrych ar gynnal adolygiad dalgylchoedd ac yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Polisi a

| | |
|---|---|
| | Pherfformiad i edrych ar ddata i ystyried sut i adolygu'r dalgylchoedd ac yn gobeithio cyflwyno ymgynghoriad statudol yn nhymor yr haf o amgylch yr adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am Adran 106 a sut y gellir ei ddefnyddio, esboniodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg y caiff ffurflen asesu ei llenwi bob tro y cyflwynir datblygiad cynllunio. Defnyddid y fformiwla sefydledig yn seiliedig ar nifer yr anheddau ac effaith bosibl nifer disgyblion a fyddai'n deillio ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Cyflwynir y ffurflen i'r Adran Cynllunio i ystyried yr effaith bosibl ar ysgolion. Mewn rhai achosion roedd lefelau uchel o effaith ac mewn achosion eraill ddim neu fawr o effaith; caiff hyn ei fonitro drwy'r stad ysgolion. Cynhelir cyfarfodydd misol gyda'r Adran Cynllunio i edrych ar ddatblygiadau a'r effaith ar ysgolion ac edrych os oes materion hyfywedd ariannol ar gyfer datblygwyr a hefyd os oedd capasiti digonol ai peidio o fewn ysgolion i ddarparu ar gyfer y disgyblion. Awgrymodd y Swyddog y gallai ddarparu adroddiad ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol i roi manylion sut y gweithiai'r Gyfarwyddiaeth o amgylch datblygiadau Adran 106 i'w cynnwys i gynllunio lleoedd disgyblion ac o fewn prosesau trefniadaeth strategol ysgolion.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn croesawu'r adolygiad o'r dalgylchoedd gan y teimlai y byddai'n helpu i liniaru problemau digonolrwydd mewn rhai ysgolion ac yn helpu i asesu nifer y disgyblion sydd eu hangen mewn gwahanol ysgolion.<br><br>Yng nghyswllt Adran 106, cododd Aelod bryderon am ddatblygwyr newydd a'u cyfraniadau. Dywedodd y teimlai ei bod yn bwysig sicrhau fod pob datblygwr yn cyfrannu'n deg a bod cytundebau Adran 106 yn parhau.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg at y flaenraglen gwaith ac adroddiadau ar yr adolygiad o gapasiti yn Ysgol Arbennig Pen-y-Cwm a Chytundebau Adran 106 a gyflwynir i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn yr adroddiad. |

| Item ID | 4122 |
|---|---|
| Item Title | Prosiect Cysylltedd TGCh – Seilwaith Addysg |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar gynnydd yng nghyswllt prosiect cysylltedd seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Bydd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o Raglen Hwb EdTech Llywodraeth Cymru a'i aliniad gyda phrosiect cysylltedd seilwaith Blaenau Gwent.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd Aelod fod defnydd technoleg wedi newid yn sylweddol iawn eleni a holodd os gallai'r seilwaith newydd hwn ymdopi gyda newidiadau mewn dysgu cyfunol ac os y byddai'n helpu gyda dysgu ar draws ysgolion mewn pynciau gyda galw isel e.e. ieithoedd ac yn y blaen fel y gallai disgyblion o ysgolion eraill yn y Fwrdeistref ymuno ar gyfer y pynciau neilltuol hynny. O safbwynt cysondeb a seilwaith, dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg bod ysgolion mewn sefyllfa well gyda safonau teg ar draws y stad ysgolion. Mae gwaith gydag ysgolion ar adnewyddu dyfeisiau diwedd bywyd yn parhau. Mae strategaeth TGCh yn cael ei datblygu gydag ysgolion a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg, a chaiff y strategaeth ei drafftio dros dymor y gwanwyn ar gyfer ymgynghoriad a gweithredu o fis Medi 2021. Mae'r seilwaith fel y'i hwyluswyd wedi gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu o bell ar draws y bwrdd.<br><br>Cefnogodd cynrychiolydd SRS sylwadau'r Swyddogion a dywedodd fod TG yn newid yn barhaus a bod Wi-Fi a osodwyd mewn ystafelloedd dosbarth 10 mlynedd yn ôl bellach yn hen ffasiwn. Byddai'r dechnoleg newydd yn galluogi dysgu cyfunol, dysgu o bell a dysgu seiliedig mewn ystafell ddosbarth yn y ffordd fwyaf diogel gyda monitro a chefnogaeth gan dîm Addysg SRS. Maent yn rhoi rhwydwaith penodol i ddarparu ar gyfer defnydd iPads a Chromebooks, mae hefyd fynediad gwesteion i alluogi siaradwyr gwadd i ddod i ysgolion, a llwyfan BYOD o'i fewn, y mae ysgolion yn edrych ar ffyrdd o'i ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Mae TG yn hwylusydd mawr, gyda'r un dyfeisiau yn cael eu defnyddio mewn ystafelloedd dosbarth ac yn y cartref, gwelwyd hyn i ryw raddau gyda dyfeisiau a gafodd eu dosbarthu fel rhan o'r Rhaglen Digidol Amddifadus.<br><br>Ychwanegodd yng nghyswllt galluogi ysgolion i ryng-gyfathrebu a galluogi dysgwyr o un ysgol i ymuno gyda dysgwyr o ysgolion eraill, bod tystiolaeth fod y dechnoleg yn galluogi hynny i ddigwydd; fodd bynnag ni fedrai SRS gyfeirio ysgolion ar y ffordd orau i ddefnyddio'r dechnoleg a osodwyd ond maent yn gweithio gyda Blaenau Gwent a phartneriaid eraill i gynnwys peth o hyn yn y strategaeth ehangach.<br><br>Teimlai Aelod y byddai hyn yn fanteisiol iawn yn y dyfodol er mwyn cael ysgolion penodol yn addysgu pynciau neilltuol ar draws y bwrdd.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn Aelod ar y Ganolfan Data, dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod hyn yn cysylltu ag ysgolion yn symud o ddysgu Blaenau Gwent i lwyfan EDU ysgolion. Dywedodd cynrychiolydd SRS y byddai Canolfan Data Blaenafon yn symud i fan arall ond y byddai'r gwasanaethau a ddarperir ar lwyfan EDU yr ysgolion yn parhau. Mae symud i gyfrifiadureg Cwmwl a byddent yn edrych ar yr hyn y gallai'r hyb ddod ag ef i Flaenau Gwent a phartneriaid dros y blynyddoedd nesaf. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod rhan o agwedd ymfudo y prosiect yn agos iawn at ddatblygiadau'r Ganolfan Data a'u bod yn gweithio'n agos gyda'r tîm Corfforaethol i edrych ar unrhyw oblygiadau posibl.<br><br>Holodd yr Aelod os caiff data ei gadw ar wahân ym mhob ysgol neu ei storio |

| | |
|---|---|
| | yn y ganolfan ddata ym Mlaenafon. Dywedodd cynrychiolydd SRS y caiff y rhan fwyaf o'r data ei gadw o fewn y ganolfan ddata ym Mlaenafon sy'n dilyn safonau data. Ychydig iawn o ddata a gedwir ar safle ond mae serfwyr safle sy'n delio gyda swyddogaethau system. Caiff dogfennau, negeseuon e-bost a SIMS i gyd eu cadw yn y ganolfan ddata ym Mlaenafon.<br><br>Holodd Aelod os yw'r gwasanaeth yn gydnaws gydag awdurdodau lleol eraill a Choleg Gwent. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod aliniad gydag awdurdodau lleol SRS. Mae cynllun Hwb Edtech yn anelu i sicrhau lefel o gysondeb ar draws Cymru i weithio'n fwy cyson, rhannu arferion ac adnoddau ac yn y blaen ac mae SRS yn hwyluso'r rhyng-gysylltiad hwnnw rhwng eu hawdurdodau lleol o fewn y rhanbarth sy'n cynnwys Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gwaith sy'n mynd rhagddo yn ysgol Pen-y-Cwm a gobeithiai na fyddai llawer o ymyriad. Dywedodd y gwnaed gwaith gwych gyda dysgu cyfunol yn arbennig yn yr ysgolion cynradd. Rhoddwyd offer i'r disgyblion mwyaf bregus a holodd pa gefnogaeth a roddwyd i'w rhieni i helpu paratoi eu plant i fedru cael mynediad i ddysgu ar-lein. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod ysgolion yn gweithio'n agos iawn gyda'r rhieni hynny. Mae ysgol Sant Joseff wedi cynnal sesiwn ymgysylltu gyda rhieni i arddangos dysgu ar-lein. O safbwynt cynhwysiant, gallai'r tîm Cynhwysiant roi cefnogaeth os oes angen hynny.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef derbyn yr adroddiad. |

| Item ID | 4123 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith: 26 Ionawr 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu.<br><br>Gofynnodd Aelod am wybodaeth ar ffioedd ymgynghorwyr ar gyfer y portffolio Addysg. Byddai'r Cyfarwyddwr Addysg yn paratoi nodyn gwybodaeth ar gyfer Aelodau.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd, ar ôl i'r nodyn gwybodaeth gael ei ddarparu, y gellid cynnwys adroddiad ar ffioedd ymgynghorwyr yn y portffolio Addysg yn y cylch Pwyllgor nesaf os oes angen.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef cymeradwyo blaenraglen gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu ar gyfer y cyfarfod ar 26 Ionawr 2021.<br><br>CYTUNWYD YMHELLACH i baratoi nodyn gwybodaeth i aelodau ar ffioedd ymgynghorwyr a'i anfon at Aelodau, a threfnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu pan fyddai'n addas ei ystyried: |

| | |
|---|---|
| | • Adolygu capasiti Ysgol Arbennig Pen-y-Cwm<br>• Trefniadau A106. |